



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**GWNEUD CAIS AM LETY
GAN Y CYNGOR NEU
GYMDEITHAS DAI YN
YNYS MÔN**

**CRYNODEB O'R
POLISI GOSOD TAI**



RHAGARWEINIAD

Mae'r Gwasanaeth Tai yn berchen ar oddeutu 3,800 o unedau o lety ar yr Ynys sydd ar gael i'w rhentio. Does dim angen dweud nad oes digon o bell ffordd i gwrdd â'r galw.

Rydym yn gosod llety yn unol â Rhan VI Deddf Tai 1996 (fel y cafodd ei ddiwygio gan Ddeddf Digartrefedd 2002) a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'n rhaid i ni gael cynllun sy'n dangos sut 'rydym yn penderfynu ar flaenoriaethau wrth osod Tai Cyngor a gwneud enwebiadau i'r Cymdeithasau Tai sy'n bartneriaid i ni. Rydym wedi datblygu Polisi Gosod Tai sy'n ceisio sicrhau bod llety yn cael ei osod mewn ffordd sy'n deg ac yn dryloyw a bod y bobl â'r angen mwyaf yn cael y flaenoriaeth uchaf.

Mae'r llyfryn hwn yn crynhoi prif bwyntiau'r Polisi Gosod Tai ac mae'n seiliedig ar fformat 'cwestiynau a ofynnir yn aml'.

ATODIAD 1

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gwneud ymrwymiad i gael gwared ar wahaniaethu ac i hyrwyddo cyfleon cyfartal i bawb yn y maes cyflogaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau.

Os nad Cymraeg/Saesneg yw eich iaith gyntaf a phe hoffech gael cyfieithiad neu dâp, gellwn gael un ar eich cyfer. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael mewn Braille neu brint bras.

Mae copi llawn o'r Polisi Gosod Tai hefyd ar gael dim ond i chi ofyn amdano - neu gellwch ei lwytho i lawr o wefan y Cyngor yn www.ynysmon.gov.uk.

CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML

C Sut mae gwneud cais am lety gyda'r Cyngor?

A Bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais Cofrestr Dai, ei dyddio a'i harwyddo. Bydd staff yn falch o'ch cynorthwyo i gwblhau'r ffurflen. Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth y gofynnir amdani neu, fel arall, bydd y ffurflen yn cael ei dychwelyd i chi ac ni fyddwch yn ymddangos ar y Rhestrr.

C Sut mae cael Ffurflen Gais?

A Gellwch:

- Ysgrifennu at y Gwasanaethau Tai, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW.
- Galw yn Nerbynfa Gwasanaethau Tai yn y Swyddfeydd yn Llangefni - Dydd Llun i ddydd Iau - rhwng 8.45am a 5.05pm, neu ar ddydd Gwener - rhwng 8.45am a 5.00pm.
- Ffonio 01248 752294 / 752293.
- E-bost: tai@ynysmon.gov.uk

C Oes rhaid i mi lenwi ffurflen ar wahân ar gyfer llety gyda Chymdeithasau Tai?

ATODIAD 1

A Nac oes. Rydym yn gweithredu Cofrestr Dai Gyffredin gyda Chymdeithas Tai Eryri, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru. Mae'r Gofrestr yn cynnwys pobl yr aseswyd eu bod angen cartref.

C ***Rwyf yn denant i'r Cyngor / Cymdeithas Dai ar hyn o bryd a hoffwn drosglwyddo. Oes rhaid i mi lenwi ffurflen wahanol?***

A Na.

C ***Oes modd i mi wneud cais am denantiaeth ar y cyd gyda fy mhartner?***

A Oes....ond rhaid i chi gofio bod y ddau denant yn gyfrifol ar y cyd ac ar wahân am sicrhau y glynir wrth amodau'r denantiaeth. Er enghraifft, os bydd dyled yn cronni ar y cyfrif rhent, mae pob un o'r tenantiaid ar y cyd yn gyfrifol. Nid oes gennych renti ar wahân. Mae hyn yn wir am y cymalau yn y cytundebau tenantiaeth hefyd - os yw un tenant yn chwarae cerddoriaeth yn uchel ac yn achosi niwsans i drigolion neu gymdogion eraill, mae'r holl denantiaid yn cael eu dal yn gyfrifol.

C ***A ellid gwrthod fy nghais am unrhyw reswm?***

A Oes. Mae'r gyfraith yn dweud nad oes modd i ni roi llety'r Cyngor i bobl 'anghymwys', er enghraifft, y rheini sy'n dod o dan drefniadau rheoli mewnfudo.

ATODIAD 1

C Sut byddaf yn gwybod os yw fy nghais wedi ei wrthod?

A Byddwn yn rhoi gwybod i chi ar bapur yn dweud pam ac yn dweud bod gennych hawl i ofyn am adolygiad. Bydd y llythyr hefyd yn nodi'r amserlen a'r drefn adolygu. Byddwn hefyd yn ysgrifennu atoch i roi gwybod am ganlyniad yr adolygiad.

C Beth sy'n digwydd os oes gennyf ddyledion o hen denantiaeth, costau llys neu ddyledion yn sgil gwaith trwsio y codwyd amdano?

A Os byddwn yn penderfynu eich derbyn ar y Gofrestr Dai, byddwn yn atal eich cais hyd nes y byddwch wedi gostwng y ddyled i swm sy'n cyfateb i 4 wythnos o rent net. Wedi hynny byddwn yn rhoi sylw i'ch cais. Mae'n annhebygol y byddwn yn cynnig llety i chi hyd nes y byddwch wedi talu'r ddyled yn llawn ac eithrio lle mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno fel arall.

C Beth mae 'atal' yn ei olygu?

A Bydd eich cais yn cael pwyntiau am gysylltiad lleol/angen tai ond ni fyddwch yn cael eich ystyried pan fo eiddo yn dod yn wag ar gyfer ei osod.

ATODIAD 1

C Oes yna unrhyw amgylchiadau eraill lle gellid atal fy nghais?

A Oes. Er enghraifft:

- Bod gennych y modd ariannol digonol i rentu neu brynu yn y farchnad breifat (£35,000 i ddibenion rhentu).
- Rydych yn berchen ar eiddo (ac eithrio os ydych yn cael cartref am resymau meddygol neu os ydych yn gorfod gadael eiddo yr ydych yn berchennog ar y cyd arno gan adael y parti arall yno).
- Rydych chi neu aelod o'ch aelwyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar hyn o bryd neu wedi gwneud hynny yn ddiweddar, a bod yr ymddygiad hwnnw, ym marn y Cyngor, yn cael effaith ar eich addasrwydd i fod yn denant/tenantiaid, sef ymddygiad fel achosi difrod i eiddo, ymddwyn yn sarhaus tuag at staff y Cyngor, achosi niwsans sŵn, ymwneud â sylweddau anghyfreithlon.

C A fyddaf yn cael gwybod os bydd fy nghais yn cael ei atal?

A Byddwch. Byddwn yn dweud pam mae eich cais wedi ei atal, am ba hyd a sut y gellwch gywiro'r sefyllfa.

C Pa mor hen sydd rhaid i mi fod i gael tŷ Cyngor?

ATODIAD 1

A Rydym yn derbyn ceisiadau gan bobl 16-17 oed ond, fel arfer, ni fyddwn yn cynnig llety parhaol i bobl dan 18 (byddai hyn yn dibynnu ar ddisgresiwn y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol).

C ***Sut fath o lety y medra i wneud cais amdano?***

A Gellwch wneud cais am :

- Ty - os oes gennych blant dan 16 (16-18 os ydynt mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn)
- Byngalo/fflat pensiynwyr - os ydych yn 60+ oed. Ystyrir cyplau am fyngalos dwy ystafell wely cyn ymgeiswyr sengl.
- Llety gwarchod - os ydych yn 60+ oed neu os ydych wedi eich cofrestru fel person anabl. Asesir eich anghenion tai a chefnogaeth.
- Llety wedi ei addasu - os ydych chi / rhywun sy'n byw gyda chi wedi cael eich asesu fel pobl sydd angen llety o'r fath.

C ***Beth sy'n digwydd wedi i chi gael cais gennyf?***

A Byddwn yn eich cynnwys ar y Gofrestr Dai ac yn anfon llythyr cydnabod atoch cyn pen 5 diwrnod gwaith. Byddwn yn ysgrifennu atoch eto cyn pen 30 diwrnod gwaith ynghylch statws eich cais

ATODIAD 1

ar yr amod ein bod wedi cael yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani.

C ***Sut ydych chi'n asesu fy nghais?***

A Rydym yn gweithredu system bwyntiau sy'n rhoi syniad i chi o'r flaenoriaeth yr ydych yn debygol o'i chael yn seiliedig ar eich amgylchiadau unigol. Rydym yn adio eich pwyntiau i roi sgôr a'r cyfanswm hwn sydd yn penderfynu eich safle ar y Gofrestr Dai.

C ***Sut mae cael pwyntiau?***

A Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i ni roi ffafriaeth resymol neu fantais resymol i bobl yn y categorïau isod:

- Pobl ddigartref.
- Pobl sy'n byw mewn tai afiach neu orlawn neu mewn amgylchiadau tai anfoddhaol.
- Pobl sydd angen symud am resymau meddygol neu les.
- Pobl sydd angen symud i le penodol yn yr ardal i osgoi caledi (iddyn nhw eu hunain neu i eraill).

Rydym yn rhoi pwyntiau i adlewyrchu gwahanol fathau o angen a hefyd i'n cynorthwyo i wneud gwell defnydd o'n stoc dai.

C ***A fyddai modd i mi weithio allan fy sgôr fy hun?***

ATODIAD 1

A Gellwch ddefnyddio'r rhestr bwyntiau isod i gael syniad o'ch sgôr tebygol ond dylech ddisgwyl am gadarnhad ysgrifenedig gan yr Adain Gosod Tai. Mae'r pwyntiau yma yn adlewyrchu Polisi Gosod y Cyngor yn unig. Bydd ceisiadau sy'n cael eu henwebu i Gymdeithasau Tai yn debygol o gael eu ail-bwyntio yn unol â'u meini prawf dyrannu eu hunain.

AMGYLCHIADAU	PWYNTIAU
Digartref / dan fgygythiad o fod yn ddigartref yn anfwriadol: NEU Digartref, yn anfwriadol ac mewn grŵp blaenoriaeth o ganlyniad i drais neu fgygythiadau o drais sy'n debygol o ddigwydd:	20 pwynt 30 pwynt
NB: Os ydych yn gwrthod cynnig o lety addas byddwch yn colli eich pwyntiau digartrefedd.	
Digartref ac mewn grŵp blaenoriaeth ond yn fwriadol digartref: NEU Byw mewn lojins, aros gyda theulu/frindiau:	5 pwynt 10 pwynt

ATODIAD 1

<p>NEU</p> <p>Yng ngofal yr Awdurdod Lleol, yn byw mewn lloches/ prosiect tai a chymorth am o leiaf 6 mis a chadarnhad ysgrifenedig wedi ei dderbyn eich bod yn barod i symud ymlaen.</p> <p>NEU</p> <p>Wedi eich rhoi mewn llety Awdurdod Lleol dros dro neu lety preifat:</p> <p><i>Bydd y categori hwn hefyd yn denu 10 o bwyntiau ar ôl y 6 mis cyntaf a dreulir yn y llety dros dro, a 10 pwynt ychwanegol ar ôl 6 mis arall.</i></p>	<p>45 pwynt</p> <p>20 pwynt</p>
<p>Dim cyfleusterau coginio:</p>	<p>5 pwynt</p>
<p>Byw mewn amodau tai gwael: <i>(yn seiliedig ar wybodaeth gan y Swyddog lechyd yr Amgylchedd)</i></p>	<p>Hyd at 20 pwynt</p>
<p>Gorlawn:</p>	<p>20 pwynt ar gyfer pob ystafell wely yr ydych yn brin ohoni</p>
<p>Cyflwr meddygol: <i>(a roddir gan Arbenigwyr Meddyginiaeth Gymunedol)</i></p>	<p>Hyd at 30 pwynt</p>

ATODIAD 1

Angen symud i osgoi caledi, ee, i dderbyn/rhoi gofal a chefnogaeth a lle byddai cael lle arall i fyw yn golygu na fyddai'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddarparu gwasanaethau:	10 pwynt
Angen symud mewn amgylch- iadau eithriadol:	Nifer y pwyntiau yn amrywio ac yn cael eu rhoi ar gyfer un cynnig yn unig.
Gyda phlentyn dan 11 oed ac yn byw mewn: a) fflat neu maisonette ar y llawr gwaelod heb ddefnydd o ardd: b) maisonette neu fflat uwchben y llawr gwaelod:	20 pwynt 30 pwynt
6 mis yn feichiog ac yn byw mewn fflat neu maisonette uwchben y llawr gwaelod:	10 pwynt
Rhannu cyfleusterau gydag aelwydydd ar wahân: - Ystafell Byw:	5 pwynt

ATODIAD 1

<ul style="list-style-type: none">- Cegin:- Toilet:- Ystafell Ymolchi:	<p>5 pwynt</p> <p>5 pwynt</p> <p>5 pwynt</p>
Tenant Cyngor yn byw mewn llety sy'n rhy fawr:	<p>30 pwynt ar gyfer pob ystafell wely nad oes eu hangen.</p>
Gofalwyr maeth cofrestredig y mae eu llety cyfredol yn anaddas iddynt o ran ei faint neu ei leoliad fel ei fod yn eu rhwystro rhag darparu gofal:	<p>30 pwynt</p>
I ryddhau eiddo sydd wedi ei addasu (eiddo'r Cyngor neu Gymdeithas Dai) lle nodwyd bod angen am yr eiddo, hy, yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi ymgeisydd y byddai'r addasiadau yn addas ar ei gyfer:	<p>20 pwynt</p>
Yn byw mewn llety fel amod cyflogaeth gyda'r Cyngor neu Gymdeithas Dai ac yn gorfod gadael am reswm heb fod unrhyw fai arnynt, ee, ymddeoliad, colli swydd, afiechyd:	<p>20 pwynt</p>

ATODIAD 1

<p>Yn byw mewn mân-ddaliad o eiddo'r Cyngor ac yn gorfod gadael heb fod dim bai arnoch:</p>	<p>20 pwynt</p>
<p>Tenant i'r Cyngor neu Gymdeithas Dai ar hyn o bryd ac yn dymuno trosglwyddo:</p> <p>C <i>Oes gennyf hawl i gael pwyntiau eraill?</i></p> <p>A Efallai bod gennych hawl i gael pwyntiau am gysylltiad lleol</p>	<p>10 pwynt</p>
<p>Am bob blwyddyn yr ydych wedi bod yn gweithio yn Ynys Môn neu yn byw yn Ynys Môn fel eich unig neu eich prif gartref, hyd at 10 mlynedd:</p> <p>NEU</p> <p>Os yw eich mam, tad, chwaer, brawd neu blant wedi bod yn byw yn Ynys Môn am o leiaf 5 mlynedd:</p> <p>NEU</p> <p>Eich bod wedi bod yn byw yn Ynys Môn am 6 o'r 12 mis diwethaf:</p>	<p>3 pwynt am bob blwyddyn hyd at 10 mlynedd</p> <p>10 pwynt</p> <p>1 pwynt</p>

ATODIAD 1

NEU Amgylchiadau eithriadol, ee, eich bod angen bod yn agos i wasanaethau meddygol neu gymorth arbenigol nad ydynt ond ar gael yn Ynys Môn:	5 pwynt
Rhoddir hyd at 10 pwynt ychwanegol os ydych wedi bod yn gweithio neu wedi bod a'ch unig neu eich prif gartref yn y plwyf yr ydych yn dymuno dychwelyd i fyw ynddo:	2 bwynt am bob blwyddyn hyd at 10 mlynedd

C ***Beth sy'n digwydd os bydd fy amgylchiadau yn newid?***

A Rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newid ar bapur bob amser oherwydd y gallai newid cyfanswm eich pwyntiau.

C ***Beth sy'n digwydd pan ddaw lle gwag ar gael?***

A Rydym yn tynnu rhestr fer o denantiaid posib yn seiliedig ar y system bwyntiau - sef pobl yr aseswyd bod ganddynt yr angen mwyaf am y math a'r maint o lety ac sydd wedi nodi eu bod yn dymuno cael llety yn yr ardal benodol honno. Fel arfer, cynigir yr eiddo i'r ymgeisydd gyda'r

ATODIAD 1

nifer uchaf o bwyntiau. Os oes mwy nag un ymgeisydd gyda'r un nifer o bwyntiau, yna byddwn yn gosod yr eiddo i'r ymgeisydd sydd wedi bod ar y gofrestr am y cyfnod hiraf.

C Sut byddaf yn gwybod os bydd fy nghais wedi llwyddo?

A Byddwn yn gwneud cynnig ysgrifenedig i chi.
ON: Gwneir cynigion ar sail amodol a gellir eu tynnu'n ôl unrhyw bryd cyn arwyddo'r cytundeb tenantiaeth, ee, os yw'r tenant a oedd yn bwriad gadael yn newid ei feddwl; os yw eich amgylchiadau wedi newid ac os nad oes gennyh hawl i gael cynnig o'r fath.

C Beth sy'n digwydd os wyf wedi dweud bod gennyf ddiddordeb mewn eiddo Cymdeithas Dai a bod ty yn dod yn wag?

A Os bydd y Gymdeithas Dai yn gofyn i ni enwebu, byddwn, fel arfer, yn anfon manylion am y 3 ymgeisydd gyda'r nifer uchaf o bwyntiau. Yna, bydd swyddog yn ymweld â chi ac, os byddwch yn llwyddiannus, bydd y gymdeithas yn gwneud cynnig ysgrifenedig i chi.

C Sawl cynnig sydd gennyf hawl i'w cael?

A Dau. Os byddwch yn gwrthod y ddau, bydd eich cais yn cael ei atal am 12 mis.

ATODIAD 1

C *Beth yw rôl fy Nghynghorydd Lleol?*

A Er bod y gyfraith yn gwahardd eich Cynghorydd rhag chwarae unrhyw ran yn y broses gosod tai, gallant wneud ymholiadau ysgrifenedig ar eich rhan mewn perthynas â'ch cais am dŷ **OND DIM OND GYDA'CH CANIATÂD YSGRIFENEDIG CHI**. Er enghraifft, gallant sicrhau fod holl ffeithiau eich achos wedi eu cymryd i ystyriaeth pan mae eich cais yn cael ei asesu. Mae ffurflenni caniatâd yn cael eu gyda'r Ffurflenni Cais. Os ydych ar y Gofrestr yn barod ac angen ffurflen caniatâd cysylltwch â'r Gwasanaethau Tai os gwelwch yn dda. Os hoffech drefnu apwyntiad i drafod eich cais ac yn dymuno i'ch Cynghorydd fynychu, cysylltwch â'r Gwasanaethau Tai os gwelwch yn dda.

C *Pam mae'n rhaid i mi roi caniatâd ysgrifenedig?*

A Mae gwybodaeth bersonol megis eich enw, cyfeiriad ac amgylchiadau tai wedi eu diogleu o dan y Ddeddf Diogleu Data 1998. Golyga hyn na all y Cyngor rannu'r wybodaeth yma heb eich caniatâd.

C *Beth dylwn i ei wneud os nad wyf yn hapus gyda'r ffordd y cafodd fy nghais ei drin?*

A Fe ddylech, yn y lle cyntaf, drafod eich pryderon gyda'r sawl yr ydych wedi bod yn delio â nhw a

ATODIAD 1

dweud wrthynt beth yw'r broblem neu ofyn am gael siarad gyda'u rheolydd linell/goruchwyliwr/goruchwylwraig. Efallai bydd angen gwneud apwyntiad. Os ydych yn dal i fod yn anhapus gyda'r ymateb a gawsoch, gellwch ysgrifennu at y Pennaeth Gwasanaethau Tai. Oni fydd y mater yn cael ei ddatrys ac os nad oes trefn apelio arall ar gael i chi, gellwch:

- Wneud cwyn ffurfiol i'r Swydddog Gofal Cwsmer. Dylech gynnwys eich enw llawn a'ch cyfeiriad, rhif ffôn/pwynt cyswllt a disgrifiad manwl o'r gwyn.
- Ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Pencoed, Pen-y-Bont yr Ogwr CF31 5JL.

Rydym yn gobeithio bod y llyfryn hwn wedi bod o fudd i chi.

Pe hoffech gael rhagor o wybodaeth, gallwch:

- Ysgrifennu at Gwasanaethau Tai, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL777 7 TW
- Galw yn nerbynfa'r Gwasanaethau Tai yn Swyddfeydd Lalngefni – Dydd Llun i dydd Iau – rhwng 8.45yb a 5.05yh neu ddydd Gwener – rhwng 8.45yb a 5.00yh
- Ffonio 01248 752293 / 752294
- E-bostio: tai@ynysmon.gov.uk



**Adain Gosod Tai, Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW Rhif ffôn: 01248 752293/94
e-bost: tai@ynysmon.gov.uk**

Ffurflen Caniatâd i Rannu Gwybodaeth – Y Broses Gosod Tai

Eich Preifatrwydd

Mae gennych hawl i breifatrwydd. Mae'r Cyngor yn parchu eich preifatrwydd ac mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn cael ei reoli gan y gyfraith. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth breifat gydag eraill heb eich caniatâd chi oni bai bod y gyfraith yn caniatâu neu gofyn amdano.

Beth yw pwrpas y ffurflen hon?

Efallai eich bod eisiau gofyn i rhywun eich cynrychioli chi er mwyn cysylltu â'r Gwasanaethau Tai ar eich rhan mewn perthynas â mater gosod tai. Gallwch ofyn i'ch Aelod Lleol, Aelod Cynulliad, Aelod Seneddol, Cyfreithiwr, ffrind neu berthynas i'ch cynrychioli. Bydd eich cynrychiolydd angen y wybodaeth perthnasol am eich cais i allu eich helpu.

Mae rhoi eich caniatâd yn rhoi hawl i'r Cyngor drafod eich cais gyda'r person(au) yr ydych chi yn dymuno i'ch cynrychioli. Bydd y ffurflen hon yn gadael i ni wybod eich bod yn fodlon i ni rannu eich gwybodaeth personol gyda'ch cynrychiolydd.

Mae'n bwysig eich bod yn cwblhau'r ffurflen hon i roi caniatâd i ni drafod eich cais gyda'ch cynrychiolydd cyn i ni allu rhannu unrhyw wybodaeth ynglŷn â'ch cais am dŷ. Fel arfer, bydd angen i'r Gwasanaethau Tai fod hefo copi o'r ffurflen ganiatâd wedi ei llofnodi cyn i unrhyw wybodaeth am eich cais gael ei rannu.

Beth yw caniatâd?

Caniatâd ydi pan fyddwch chi yn cytuno neu yn rhoi eich caniatâd.

Pa wybodaeth gellir ei rannu gan y Gwasanaethau Tai?

Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais a fydd yn cynorthwyo'ch cynrychiolydd i weithredu ar eich rhan.

Oes modd i mi dynnu fy nghaniatâd yn ôl?

Oes. Gellwch dynnu eich caniatâd i'r Gwasanaethau Tai drafod eich cais gyda chynrychiolydd yn ôl unrhyw adeg. Bydd rhaid i chi ysgrifennu at yr Adain Gosod (cyfeiriad ar ben y dudalen). Nid oes rhaid i chi roi rheswm dros dynnu eich caniatâd yn ôl.



**Allocation Section, Housing and Social Services Department, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey, LL77 7TW Tel : 01248 752293/94
e-mail: housing@ynysmon.gov.uk**

Housing Allocation Information Sharing Consent Form.

Your Privacy

You have a right to privacy. The Council respects your privacy and the ways that we use your personal information is controlled by law. This means that we will not share your private information with others without your consent unless the law allows or requires it.

What is the purpose of this form?

You may want to ask someone to represent you in order to contact Housing Services on your behalf in relation to a housing allocation matter. You can ask your local County Councillor, Assembly Member, Member of Parliament, Solicitor, friend or relation to be your representative. Your representative will require relevant information about your application in order to help you.

Giving your consent gives the Council the right to discuss your application with the persons (or persons) you want to represent you. This form lets us know that you are happy for us to share your personal information with your representative.

It is important that you complete this form giving us permission to discuss your application with your representative before we can share any information regarding your housing application. Normally, Housing Services would need to have a signed copy of the consent form before any information about your housing application can be shared.

What is Consent?

Consent is when you agree or give your permission.

What information can be shared by the Housing Department?

We will only share information that is relevant to your application and which assists your representative to act on your behalf.

Can I withdraw my consent?

Yes. You can withdraw your consent for Housing Services to discuss your application with a representative at any time. You will need to write to the Allocation Section (address at top of the page). You do not have to give a reason for withdrawing your consent.



Adain Gosod Tai, Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Swyddfeydd y Cyngor,
Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

*Allocation Section, Housing and Social Services Department, Isle of Anglesey County
Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW*

Rhif ffôn/Tel : 01248 752293 / 94
e-bost: tai@ynysmon.gov.uk e-mail: housing@anglesey.gov.uk

Ffurflen Caniatad i Rannu Gwybodaeth – Y Broses Gosod Tai
Housing Allocation Information Sharing Consent Form

'Rydwyf i / 'Rydym ni (printiwch yr enwau) / I / We (print name(s))

Ymgeisydd / Applicant 1

Ymgeisydd / Applicant 2

yn deall, trwy arwyddo a dychwelyd y ffurflen ganiatad hon, fy mod (ein bod) yn rhoi caniatâd i'r Gwasanaethau Tai ymateb i ymholiadau a wneir gan fy nghynrychiolydd ar fy rhan. 'Rwyf yn deall ac yn cytuno na chaiff y Gwasanaethau Tai ond trafod fy nghais am dŷ gyda fy nghynrychiolydd.

understand that by signing and returning this consent form that I am giving Housing Services permission to respond to enquiries my representative makes on my behalf. I understand and agree that Housing Services may only discuss my housing application with my representative.

Arwyddwyd gan ymgeisydd / Signed by applicant (1)

.....

Arwyddwyd gan ymgeisydd / Signed by applicant (2)

.....

Dyddiad arwyddwyd gan yr ymgeisydd(wyr) / Date Signed by applicant (s)

.....

Ar ôl arwyddo, a fyddoch cystal â dychwelyd y ffurflen ganiatâd hon i'r Adain Gosod Tai, Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Mon, Llangefni, Ynys Mon LL77 7TW

Once signed, please return this Consent form to the Allocation Section, Housing and Social Services Department, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey, LL77 7TW.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	14 Rhagfyr 2011
TEITL YR ADRODDIAD:	Proses Gosod Tai
ADRODDIAD GAN:	Pennaeth Gwasanaethau Tai
SWYDDOG CYSWLLT:	Shan Lloyd Williams
PWRPAS YR ADRODDIAD:	I egluro rôl Aelodau Etholedig yn y broses o osod Tai Cyngor

1.0 CEFNDIR

1.1 Mae aelodau Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn wedi gofyn am adroddiad yn egluro rôl Aelodau Etholedig yn y broses Gosod Tai.

1.2 Mabwysiadwyd Polisi Gosod Tai diwygiedig ym mis Gorffennaf 2010. O edrych ar gofnodion y Pwyllgor Safonau diwethaf, mae'n glir nad yw'r polisi ei hun yn cael ei gwestiynu. Fodd bynnag, ymddengys fod elfen o anfonlonrwydd ymysg rhai Aelodau Etholedig ynghylch rôl Aelodau yn y broses gosod tai.

1.3 Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf yn cyfeirio'n benodol at:

- Cais i roi gwybod i Aelodau Etholedig pwy sydd wedi cael tai yn eu wardiau perthnasol;
- Cais i roi gwybod i'r cyhoedd nad oes gan Aelodau Etholedig fewnbwn uniongyrchol i'r broses gosod tai;
- Cais i egluro rôl yr Aelodau Etholedig yn ddiamwys yn y broses gosod tai, ac egluro hefyd bod angen cwblhau'r Ffurflen Caniatâd i Rannu Gwybodaeth cyn y gellir datgelu unrhyw wybodaeth i unrhyw gynrychiolydd. Gallai'r cynrychiolydd fod yn Aelod Etholedig lleol, Aelod Cynulliad, Aelod Seneddol, cyfreithiwr, ffrind, perthynas neu eiriolydd.
- Argymhelliad bod swyddogion yn drafftio i sylw'r Pwyllgor, ddatganiad i'r cyhoedd sy'n egluro rôl yr Aelod Etholedig gan ganolbwyntio'n benodol ar y ffaith nad oes gan Gynghorwyr unrhyw fewnbwn mwyach i'r broses gosod tai ei hun.

1.4 Mae'r Comisiynydd wedi cadarnhau hefyd ei bod yn fodlon gyda'r polisi ac nad yw'n dymuno gweld y polisi'n cael ei adolygu. Mae wedi cadarnhau y bydd llythyr o eglurhad yn cael ei anfon at bob aelod yn nodi sefyllfa'r Cyngor gyda golwg ar ddod â'r mater hwn i ben.

2.0 Y sefyllfa gyfreithiol

2.1 Yn ôl y gyfraith, ni chaniateir i Aelodau Etholedig ymwneud yn uniongyrchol â phenderfyniadau ynghylch gosod tai i ymgeiswyr yn eu wardiau, nac ymwneud yn uniongyrchol chwaith â gosod unedau o lety yn eu wardiau, a hynny er mwyn eu diogelu rhag cyhuddiadau o weithredu anghyfreithlon, ffafriaeth neu lygredd.

2.2 I gydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data 1998, ni ellir datgelu gwybodaeth bersonol mewn perthynas â thenantiaid newydd. Fodd bynnag, er mwyn cynorthwyo Aelodau Etholedig lleol i gael gwybod am statws eiddo yn eu wardiau, mae'r Pennaeth Gwasanaethau Tai yn fodlon newid y drefn fel bod Swyddogion Gosod Tai yn rhoi gwybod i'r Aelodau perthnasol am eiddo sydd wedi cael eu gosod. Gofynnir am sylwadau ar yr awgrym hwn.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth gyda'r hawl i ddirwyo hyd at hanner miliwn o bunnoedd am dorri gofynion Deddf Diogelu Data. Fe all hyn ddigwydd petai gwybodaeth am denant yn cael ei ddefnyddio i niwed unrhyw un.

3.0 Ymateb i argymhellion y Pwyllgor blaenorol

3.1 Mae'r Crynodeb o'r Polisi Gosod Tai yn cynnwys gwybodaeth ynghylch rôl yr Aelod Lleol. Mae'r wybodaeth honno i'w gweld yn y rhan *cwestiynau a ofynnir yn aml [atodiad1]* - anfonir copi at bob ymgeisydd newydd am Dŷ Cyngor a bydd hefyd ar wefan y Cyngor. Gofynnir am sylwadau ar y rhan berthnasol ar dudalennau 15-16.

3.2 Mae'r wybodaeth wedi ei drafftio gyda golwg ar adrannau 5.29 – 5.31 Côt Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Osod Tai Cyngor a Digartrefedd 2003, sy'n dweud na ddylai Aelodau Lleol ymwneud â'r broses gosod tai os yw'r llety yn eu ward neu os yw prif breswylfa'r person y gosodir eiddo iddo/iddi yn ward yr Aelod. Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn Offeryn Statudol 1997, Rhif 45 'Egwyddorion Rhagnodedig Awdurdodau Tai Lleol ar gyfer Cynlluniau Gosod Tai (Cymru)'. Y rhain yw'r sail ar gyfer Polisi Gosod Tai Cyngor Sir Ynys Môn, tudalennau 22 a 23.

3.3 Mae drafft diwygiedig o'r Ffurflen Caniatâd i Rannu Gwybodaeth ynghlwm wrth yr Adroddiad hwn *[atodiad 2]*. Mae'r ffurflen yn hwyluso ac yn egluro'r broses o ofyn i drydydd parti gynrychioli'r ymgeisydd mewn perthynas â mater gosod. Gofynnir am sylwadau ar y ffurflen ddiwygiedig, a anfonir hefyd gyda'r ffurflen gais am Dŷ Cyngor. Lle mae newidiadau wedi eu gwneud, mae'r rheini i'w gweld ar y ddogfen a gyflwynir yn y rhannau sydd wedi eu croesi allan neu eu tanlinellu.

3.4 I egluro rôl yr Aelodau Etholedig yn y broses Gosod Tai, anfonir hwn at bob Aelod Etholedig mewn llythyr ar y cyd a arwyddwyd gan y Comisiynydd, yr Aelod Portffolio Cysgodol ar gyfer Tai a'r Pennaeth Gwasanaethau Tai yn y dyfodol agos iawn. I grynhoi:

Mae gan yr Aelodau rôl weithredol yn y broses gosod tai trwy gynghori a chynrychioli eu cymunedau lleol a thrwy sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu yn deg ac yn gyson.

Gall Aelodau Etholedig...

- Wneud sylwadau ar ran eu hetholwyr er mwyn sicrhau bod holl ffeithiau eu hachos yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r ceisiadau.
- Roi cyngor i ymgeiswyr ynghylch sut i wneud cais am dŷ gyda'r Cyngor/Tai Cymdeithasol ac ynghylch argaeledd tai yn eu hardal leol. Bydd hyn yn cael ei wella yn fuan trwy ddatblygu Gwefan Opsiynau Tai newydd.
- Bydd Aelodau Etholedig yn rhan o unrhyw adolygiadau a wneir yn y dyfodol o'r polisi gosod tai i sicrhau ei fod yn cwrdd â'i amcanion. Gall Aelodau hefyd gymeradwyo unrhyw Bolisiau Gosod Lleol lle gwnaed penderfyniad i weithredu'r fath bolisiau.

Ni chaiff Aelodau Lleol...

- Benderfynu pwy sy'n cael eiddo gan y Cyngor na bod yn rhan o'r broses gosod tai.
- Ofyn am fanylion am geisiadau ymgeiswyr, neu gais rhywun arall, heb ganiatâd. Mae gwybodaeth bersonol fel enw, cyfeiriad, amgylchiadau tai unigolion ac ati yn cael eu diogelu dan Ddeddf Diogelu Data 1998 ac ni all y Cyngor rannu'r manylion hyn heb ganiatâd yr ymgeisydd.

4.0 Datblygiadau i'r Dyfodol

4.1 Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaethau Tai yn ailstrwythuro ei wasanaethau fel rhan o raglen foderneiddio. I gynorthwyo Aelodau Etholedig, bydd un pwynt cyswllt ar gyfer pob ymholiad, cyfeiriad ac atborth. Bydd y prosiect TG Tai newydd hefyd yn gwella'r gwasanaeth i'r holl gwsmeriaid, bônt yn ymgeiswyr newydd, tenantiaid, tenantiaid sector preifat neu berchen-ddeiliaid sy'n chwilio am gyngor a gwybodaeth.

4.2 Y cam rhesymegol nesaf, unwaith y bydd y Gwasanaeth TG newydd yn weithredol, fydd cael cefnogaeth gwleidyddol i ddatblygu polisi gosod tai ar y cyd gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid i ni. Byddai hynny'n gwneud y broses o wneud cais am dy yn y sector tai cymdeithasol yn llawer symlach i ymgeiswyr a byddai'n ffordd fwy effeithlon i staff weithio. Byddai'r prosiect hwn yn adlewyrchu prosiectau eraill sydd eisoes wedi digwydd mewn awdurdodau lleol cyffiniol.

5.0 Argymhellion

5.1 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Safonau gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad. Yn arbennig, gofynnir am sylwadau ar baragraffau 3.1, 3.3 a 3.4.